# Yr Ysgoloriaeth Emily Price
# Telerau ac Amodau

1. Mae'r Ysgoloriaeth Emily Price ar gael i fyfyrwraig israddedig sy'n dechrau Rhan 1 gradd anrhydedd mewn Mathemateg neu Ffiseg, neu anrhydedd gyfun Mathemateg a Ffiseg.
2. Mae'n rhaid i ymgeiswyr wneud cais i Brifysgol Aberystwyth drwy UCAS erbyn eu dyddiad cau mis Ionawr ac mae'n rhaid iddynt fod wedi cael cynnig cwrs cymwys ym Mhrifysgol Aberystwyth fel dewis Cadarn drwy UCAS er mwyn cael eu hystyried.
3. Cynigir yr Ysgoloriaeth Emily Price i fyfyrwragedd sy'n dangos addewid academaidd ac angerdd dros ddenu mwy o fenywod i faes mathemateg a/neu ffiseg; bydd gofyn i ymgeiswyr lenwi a chyflwyno ffurflen gais am yr ysgoloriaeth erbyn 31 Ionawr.
4. Mae'n bosib y gofynnir i ymgeiswyr ddod am gyfweliad byr i drafod eu cais yn ystod Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr ym mis Chwefror neu fis Mawrth.
5. Bydd y Panel Dyfarnu'n cwrdd i benderfynu ar y dyraniadau ym mis Ebrill; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu'n derfynol.
6. £500 yw gwerth yr Ysgoloriaeth. Bydd yr Ysgoloriaeth yn para am flwyddyn yn unig. Telir yr arian mewn dau randaliad cyfartal yn uniongyrchol i gyfrif banc yr ymgeisydd llwyddiannus. Telir £250 ym mis Rhagfyr, a £250 ym mis Mawrth.
7. Un Ysgoloriaeth sydd ar gael i ymgeiswyr a fydd yn dechrau eu cwrs yn 2024.
8. Ni chaiff ymgeiswyr fod wedi bod yn fyfyrwyr gradd mewn sefydliad addysg uwch o'r blaen.
9. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fynd i bob darlith a chynnal safon gyson uchel o ran perfformiad academaidd a phresenoldeb, fel y penna'r Panel Dyfarnu.
10. Mae'n bosib y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio gyda thiwtor penodedig, adrannau academaidd y Brifysgol, a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni i hybu'r Ysgoloriaeth a'r effaith a gafodd ar ei hastudiaethau.
11. Bydd deiliad yr Ysgoloriaeth yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau estyn allan yr adran Ffiseg a/neu Fathemateg mewn ysgolion ac yn y gymuned leol; a gweithgareddau i ddenu mwy o fenywod i faes mathemateg a/neu ffiseg.
12. Bydd gofyn i ddeiliad yr Ysgoloriaeth gael cyswllt rheolaidd â'r tiwtor personol penodedig er mwyn sicrhau ei bod yn datblygu hyd eithaf ei gallu.
13. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb achos da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.
14. Mae'r gwobrau'n daladwy i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i'r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o'r cwrs).
15. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).
16. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.
17. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

18. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.
19. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.
20. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn peri i'r Ysgoloriaeth gael ei diddymu.